Prifysgol Bangor
Datganiad ar Gaethwasiaeth a Masnachu Pobl

Datganiad

Cymeradwywyd y Datganiad hwn ar Gaethwasiaeth a Masnachu Pobl gan Gyngor y Brifysgol yn ei gyfarfod ar 28ain Medi, 2018.

Llofnodwyd:

Swydd: Cadeirydd Cyngor y Brifysgol

Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â chamau gweithredu a gweithgareddau a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn ariannol 01 Awst 2017 i 31 Gorffennaf 2018.

Rhagarweiniad

Mae Prifysgol Bangor yn cydnabod bod ganddi gyfrifoldeb i weithredu'n gadarn o ran caethwasiaeth a masnachu pobl.

Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i atal caethwasiaeth a masnachu pobl o'i gweithgareddau corfforaethol, ac i geisio sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn ei chadwyni cyflenwi.

Diben

Bwriad y datganiad hwn yw bodloni gofynion Rhan 6 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 drwy hysbysu myfyrwyr, staff, cwmnïau a'r cyhoedd ynghylch y brifysgol a'i pholisi o ran caethwasiaeth fodern, masnachu pobl, llafur gorfodol a rhwymedig a mynd yn groes i hawliau gweithwyr yn ei chadwyni cyflenwi. Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â chamau gweithredu a gweithgareddau a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn ariannol 01 Awst 2017 i 31 Gorffennaf 2018, a chamau gweithredu y bwriedir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol 01 Awst 2018 i 31 Gorffennaf 2019.

Fframwaith Sefydliadol

Sefydlwyd Prifysgol Bangor yn 1884 ac mae ganddi draddodiad hir o ragoriaeth a mynd tu hwnt i ddisgwyliadau o ran safonau academaidd a phrofiad myfyrwyr. Mae gan y Brifysgol dros 11,000 o fyfyrwyr a thros 2,200 o staff mewn 23 o Ysgolion Academaidd, wedi'u rhannu rhwng pum Coleg, a hefyd mewn amrywiol Wasanaethau Canolog.

Ar hyn o bryd mae Prifysgol Bangor yn gweithio gyda nifer fawr o bartneriaid ledled y byd ac mae wedi ffurfio cysylltiadau agos â sefydliadau megis y Bahrain Institute of Banking and Finance; Beijing Normal University, Tsiena a Central College, Unol Daleithiau America. Mae gan y brifysgol hefyd bresenoldeb yn Tsiena drwy Goleg Bangor yn Tsiena, sef coleg ar y cyd gyda'r Central South University of Forestry and Technology yn Changsha.

Mae gan y brifysgol dri is-gwmni - Y Ganolfan Datblygu Rheolaeth; Undeb Trading a Parc Gwyddoniaeth Menai Cyf (M-SParc).

Cenhadaeth

Cenhadaeth Prifysgol Bangor yw bod yn:

"sefydliad cryf, hyderus a gydnabyddir yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth ar sail ei bortffolio amrywiol o addysgu ac ymchwil, ac am y profiad unigryw, amlddiwylliannol a chynhwysol y mae'n ei roi i'w staff a'i fyfyrwyr."

Mae Cynllun Strategol 2015-2020 y brifysgol i'w gael ar wefan y brifysgol:

https://www.bangor.ac.uk/planning/strategic-plan/index.php.cy

Ymrwymiad i Gynaliadwyedd

Rydym yn parhau gyda'n pwyslais ar gynaliadwyedd, gan integreiddio pob elfen i'n gweithrediadau bob dydd drwy fabwysiadu fframwaith Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym yn ceisio sicrhau y bydd ein holl fyfyrwyr yn gadael y Brifysgol fel dinasyddion medrus, creadigol ac amryddawn, gyda dealltwriaeth o'r sialensiau a'r atebion sydd eu hangen ar gyfer byd cynaliadwy a gwydn.

Fframwaith Polisi Moesegol

Mae'r brifysgol wedi llunio *Fframwaith Polisi Moesegol* sy'n ymgorffori ei gwerthoedd a'i dulliau gweithredu ac sy'n berthnasol i holl staff, myfyrwyr ac aelodau'r Cyngor. Yn ogystal mae ganddi bolisi ar y ffordd mae'r brifysgol yn cynnal ei busnes.

Mae'r Fframwaith i'w gael ar wefan y brifysgol:

https://www.bangor.ac.uk/planning/documents/ethical-policy-frame-en.pdf

Mae'r brifysgol yn ceisio cadw at y safonau moesegol uchaf wrth weithio i gyflawni ei chenhadaeth a gweithredu ei chynllun strategol. Amcan y ddogfen hon yw amlinellu fframwaith sy'n diffinio safonau'r brifysgol yn gyffredinol. Cydnabyddir bod gan unigolion wahanol safbwyntiau ar faterion moesegol.

Busnes a Chadwyni Cyflenwi

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gael nwyddau a gwasanaethau heb achosi niwed i eraill.

Mae cadwyni cyflenwi'r brifysgol yn dod dan bum prif gategori gan mwyaf, sef:

Nwyddau Traul a Chyfarpar Labordy
Adnoddau Llyfrgell
Gwasanaethau Proffesiynol
Cyfarpar a Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
Nwyddau a Gwasanaethau Ystadau

Mae ein hasesiad cychwynnol yn dangos mai'r prif feysydd gwariant y mae risgiau o bwys yn gysylltiedig â hwy yw cyflenwadau swyddfa, nwyddau traul i labordai, cyfarpar TGCh, ac adeiladu.

Mae'r brifysgol yn aelod o'r North Western Universities Purchasing Consortium, sy'n prynu nwyddau i sefydliadau addysg uwch yn y DU. Mae llawer o gyflenwyr yn cael eu gwirio drwy'r Net Positives Supplier Engagement Tool, sy'n rhoi sylw'n rhannol i ofynion y Ddeddf Caethwasiaeth Modern.

Prynir cyfarpar TG drwy'r London Universities Purchasing Consortium, sy'n aelod o Electronics Watch. Sefydliad monitro annibynnol yw hwnnw sy'n gweithio i sicrhau parch i hawliau gweithwyr yn y diwydiant electroneg byd-eang drwy brynu cyfarpar at ddefnydd cyhoeddus yn Ewrop mewn ffordd gyfrifol yn gymdeithasol.

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae'r Cod wedi'i gynllunio i sicrhau bod gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi'n foesegol ac yn unol â chyfreithiau'r Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a chyfreithiau rhyngwladol. Mae'r Cod yn ymdrin â nifer o faterion cyflogaeth, gan gynnwys caethwasiaeth fodern a mynd yn groes i hawliau dynol.

Asesiad Risg

Mae'r brifysgol wedi ystyried risg caethwasiaeth fodern a masnachu pobl i'w busnes a'i chadwyni cyflenwi. Fel yn natganiad y llynedd, cydnabyddir y bydd y risg yn amrywio'n fawr ac y bydd yn newid, ond nad oes unrhyw faes neu sefydliad heb elfen o risg. Ar ôl cymryd i ystyriaeth waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, fel yr amlinellir isod, credir bod Prifysgol Bangor ar hyn o bryd mewn categori risg isel a, thra dylid cadw golwg gyson ar hyn, bydd y brifysgol ar hyn o bryd yn ymwneud â'i gofynion dan y Ddeddf ar sail y ffaith hon.

Y ffactorau perthnasol a ystyriwyd yn yr asesiad risg hwn yw:

- Mae gweithgor bychan o staff uwch mewn bodolaeth i ystyried gofynion y Ddeddf ac i sicrhau'n barhaus bod mesurau priodol yn cael eu gweithredu;

- Mae aelodau staff yn y brifysgol wedi derbyn hyfforddiant yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18, a threfnwyd hyfforddiant pellach i staff yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19;

- Mae prosesau recriwtio Adnoddau Dynol yn parhau i sicrhau y gweithredir prosesau cadarn mewn perthynas â'r Ddeddf yn achos staff a gyflogir yn uniongyrchol, a lle caiff staff dros dro eu recriwtio drwy asiantaethau mae'r rhain yn gwmnïau wedi eu hachredu a all roi sicrwydd i'r brifysgol eu bod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Ddeddf;

- Mae'r brifysgol yn parhau i anelu at y safonau moesegol uchaf posibl yn ei gwaith i gyflawni ei chenhadaeth a gweithredu ei chynllun strategol;

- Mae polisïau allweddol wedi'u sefydlu, ac maent wedi'u diweddaru lle bo angen:
    - Strategaeth Pryniant
    - Fframwaith Polisi Moesegol
    - Cynllun Cydraddoldeb Strategol
    - Polisi Buddsoddi Moesegol
    - Polisi Datgelu er Lles y Cyhoedd
    - Polisi Gwrth-lwgrwobrwyo
    - Polisi Cynaliadwyedd a'n rhwymedigaethau i fod yn 'Gyfrifol yn Fyd-eang' fel y disgrifir yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Gyda chontractau mwy, mae angen i gyflenwyr ddatgan a ydynt wedi torri ymrwymiadau ym meysydd cyfraith yr amgylchedd, cymdeithasol a llafur a gofynnir iddynt sut maent yn sicrhau nad ydynt hwy na'u cadwyni cyflenwi'n ymwneud ag unrhyw elfennau o gaethwasiaeth fodern;

Ein cynlluniau at y dyfodol

Fel rhan o'r drefn adrodd hon eleni ac yn y blynyddoedd i ddod, mae Prifysgol Bangor yn cadarnhau ei hymrwymiad i ddatblygu, gwella a gweithio tuag at fwy o eglurder a chyfrifoldeb tuag at bobl mewn perthynas â chaethwasiaeth a masnachu pobl. Gwneir hyn yn arbennig o ran ei chadwyni cyflenwi ac unrhyw ran o'i busnes.

Bydd amcanion allweddol am y flwyddyn i ddod yn cynnwys y canlynol (cynhwysir cynllun gweithredu manwl fel atodiad i'r datganiad hwn):

- Parhau i roi hyfforddiant penodol i aelodau staff allweddol fel rhan o hyfforddiant ehangach ar bryniant er mwyn codi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl

- Parhau i weithio tuag at ddeall cadwyni cyflenwi'r brifysgol yn well ac i sicrhau mwy o eglurder a chyfrifoldeb dros y rhai sy'n gweithio ynddynt;

- Sicrhau bod y Datganiad hwn yn cael ei arddangos yn amlwg ar wefan y brifysgol;

- Parhau i fapio'r cyflenwyr hynny sy'n dod o fewn categorïau pryniant risg uchel posibl.

- Parhau i gydweithio gyda staff a myfyrwyr, a'u cynnwys, ac ymwneud ag Undeb Bangor ac Undebau Llafur y Campws

Bangor University
Slavery and Human Trafficking Statement

Statement

This Slavery and Human Trafficking Statement was approved by the University Council at its meeting on the 28th September, 2018

Signed:

Position: Chair of the University Council

This statement relates to actions and activities undertaken during the financial year 01 August 2017 to 31 July 2018.

Introduction

Bangor University recognises that it has a responsibility to take a robust approach to slavery and human trafficking.

The University is committed to preventing slavery and human trafficking in its corporate activities, and to seeking to ensure that its supply chains are free from slavery and human trafficking.

Purpose

This Statement is designed to satisfy the requirements of Part 6 of the Modern Slavery Act 2015 by informing students, staff, companies and the public about the University and its policy with respect to modern slavery, human trafficking forced and bonded labour and labour rights violations in its supply chains. This statement relates to actions and activities undertaken during the financial year 01 August 2017 to 31 July 2018, and to planned actions for the financial year 01 August 2018 to 31 July 2019.

Organisational Structure.

Founded in 1884, Bangor University has a long tradition of excellence and exceeds expectations, both for academic standards and student experience. The University has over 11,000 students and over 2,200 staff based in 23 Academic Schools grouped into five Colleges, and also in various Central Services.

Bangor University currently works with a large number of partners around the world and has formed close links with institutions such as the Bahrain Institute of Banking and Finance, Bahrain; Beijing Normal University, China and Central College, USA. The University also has a presence in China through Bangor College China, a joint college with Central South University of Forestry and Technology based in Changsha.

The University has three subsidiary companies – Management Development Centre; Undeb Trading and Menai Science Park Ltd (M-SParc).

Mission
The mission of Bangor University is to be:

"a strong, confident institution recognised regionally, nationally and internationally as a centre of excellence for its varied portfolio of teaching and research, and for the unique, multicultural, inclusive experience it provides for its staff and students"

The University's 2015-2020 Strategic Plan can be accessed from the University website:

https://www.bangor.ac.uk/planning/strategic-plan/index.php.en

Commitment to Sustainability

We continue our emphasis on sustainability, integrating all aspects into our daily operations by adopting the framework of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. We aim to ensure that all our students leave the University as capable, creative and well-rounded global citizens with an understanding of the challenges and solutions required for a sustainable, resilient world.

Ethical Policy Framework

The University has in place an *Ethical Policy Framework* which embodies its values in principles and practice, applying to all staff, students and members of Council, as well as policies which govern how the University conducts its business.

The Framework can be accessed from the University website:

https://www.bangor.ac.uk/planning/documents/ethical-policy-frame-en.pdf

The University seeks to adhere to the highest ethical standards in working to achieve its mission and implement its strategic plan. The aim of this document is to outline a framework which defines the University's standards in general terms. It is acknowledged that individuals hold diverse views on ethical matters.

Business and Supply Chains

The University is committed to acquiring goods and services without causing harm to others.

The University's supply chains mainly fall under five super-categories, which are:

Laboratory Consumables and Equipment
Library Resources
Professional Services
ICT Equipment and Services
Estates Goods and Services

Our initial assessment is that the principal areas of expenditure which carry material risks are office supplies, laboratory consumables, ICT equipment, and construction.

The University is a member of the North Western Universities Purchasing Consortium which procures products for UK higher education institution. Many suppliers are subject to checks via the Net Positives Supplier Engagement Tool, which partly addresses the requirements of the Modern Slavery Act.

IT Equipment is purchased via the London Universities Purchasing Consortium, who are a member of Electronics Watch, an independent monitoring organisation working to achieve respect for labour rights in the global electronics industry through socially responsible public purchasing in Europe.

The University has signed up to the Welsh Government's Code of Practice on Ethical Employment in Supply Chains. The Code is designed to ensure that workers in public sector supply chains are employed ethically and in compliance with both the letter and spirit of UK, EU and international laws. The Code covers a number of employment issues, including modern slavery and human rights abuses.

Risk Assessment

The University has considered the risk of modern slavery and trafficking to its business and supply chains. As in the previous year's statement it is acknowledged that the risk will vary greatly and will change, but that no area or institution is risk free. Having taken into account work undertaken during the last academic year, as outlined below it is believed that Bangor University currently remains in a low risk category and, whilst this should be kept under review, the continued approach taken by the University to its requirements under the Act will be informed by this fact.

The relevant factors considered in this risk assessment are:-

- A small working group of senior staff exists, and considers the requirements of the Act and the need to continually ensure that appropriate measures are being undertaken;

- Members of staff at the University have attended training during the 2017/18 academic year, and further training for staff has been scheduled for the 2018/19 academic year;

- Human Resources recruitment processes continue to ensure that, for directly employed staff robust process are in place in relation to the Act, and where temporary staff are recruited through agencies these are established and accredited companies who can provide the University with assurances that they fully comply with the requirements of the Act;

- The University continues to seek the highest ethical standards in working to achieve its mission and implement its strategic plan;

- Key Policies are in place, and have been updated where necessary:-
    - Procurement Strategy
    - Ethical Policy Framework
    - Strategic Equality Plan
    - Ethical Investment Policy
    - Public Interest Disclosure (Whistleblowing) Policy
    - Anti-Bribery Policy
    - Sustainability Policy and our obligations to being 'Globally Responsible' as described in the Well-being of Future Generations Act (Wales) 2015

- On larger contracts, suppliers are required to declare whether they have violated obligations in the fields of environmental, social and labour law and are asked how they ensure that neither they or nor their supply chains are engaged in any elements of modern slavery;

Our plans for the future

As part of this reporting exercise in this and the coming years, Bangor University affirms its commitment to evolve, improve and work towards a greater transparency and responsibility towards people in relation to slavery and human trafficking. This will be with particular reference to its supply chains and any part of its business.

Key objectives for the coming year will include (a detailed action plan is included as an appendix to this Statement):-

- Continued targeted training for key members of staff as part of wider procurement training in order to raise awareness of modern slavery and trafficking

- Continue to work towards a better understanding of the University's supply chains and towards greater transparency and responsibility for those working on them;

- Ensure that this Statement is prominently displayed on the University's website;

- Further mapping of those suppliers who fall within potential high risk procurement categories of spend;

- Continue to collaborate with and involve staff and students, and engage with Bangor Students' Union and the Campus Trades' Unions.

Atodiad 1
Deddf Caethwasiaeth Fodern - Cynllun Gweithredu 2018/19

Gweithredoedd wedi cwblhau yn y flwyddyn ddiwethaf

Gweithredu	**Cefndir / Nodiadau**	**Dyddiad cau**	**Swyddog Arweiniol**	**Cwblhawyd Do / Naddo**
Sicrhau fod yr Undebau Llafur ac Undeb Myfyrwyr Bangor yn ymwybodol o'r camau mae'r Brifysgol yn eu cymryd i gydymffurfio gyda'r gofynion	Gofynion y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, yn ogystal â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Datganiad a Chynllun Gweithredu 2016/17 i'w rhannu gyda'r Undebau Llafur ac Undeb Myfyrwyr Bangor erbyn 30 Hydref 2017	Pennaeth Cydymffurfio	Do
Sicrhau bod y swyddogaethau Archwilio Mewnol a Sicrhau Risg yn ymwybodol o'r prosesau diwydrwydd dyladwy	Archwiliad mewnol posibl yn y dyfodol	Datganiad a Chynllun Gweithredu 2016/17 i'w rhannu â'r Pennaeth Sicrhau Risg erbyn 30 Hydref 2017	Pennaeth Cydymffurfio	Do
Adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau perthnasol i gynnwys	Sicrhau bod yr holl bolisïau perthnasol yn cynnwys gwybodaeth am y Ddeddf a chyfeirio ati	31 Ionawr 2016 (yn barod at y Grŵp Tasg Cydymffurfio)	Pennaeth Cydymffurfio a gweithgor	Do

cyfeiriad at y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.				
Gweithredu'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a'i ymrwymiadau	Ystyried Cod Ymarfer ac Atodiadau Cynnal hunan-asesiadau yn erbyn gofynion y Cod Ymarfer.	31 Ionawr 2018	Cyfarwyddwr Pryniant a gweithgor	Do. Gwnaed hunanasesiad o sefyllfa bresennol Prifysgol Bangor yn erbyn gofynion ymrwymiadau'r Cod a nodwyd set arfaethedig o gamau gweithredu.

Deddf Caethwasiaeth Fodern - Cynllun Gweithredu 2018/19

Gweithredu	**Cefndir / Nodiadau**	**Dyddiad cau**	**Swyddog Arweiniol**	**Cwblhawyd Do / Naddo**
Diweddaru dogfennau tendro i gynnwys cymalau priodol sy'n ymwneud â Chyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi	Mabwysiadu telerau ac amodau newydd a gyhoeddwyd gan Academi Caffael Addysg Uwch sy'n cynnwys cymalau am Gaethwasiaeth Fodern a gweithredu cymalau a chwestiynau tendro priodol fel y mae	31 Gorffennaf 2019	Dirprwy Gyfarwyddwr (Caffael a Thaliadau)	

	Llywodraeth Cymru yn ei argymell.			

Appendix 1

Modern Slavery Act Action Plan 2018/19

Completed Actions from the previous year

Action	Background / Notes	Deadline	Lead Officer	Completed Yes / No
Ensure the campus Trades Unions and Bangor Students' Union are aware of the steps taken by the University to comply with requirements	Requirements of the Modern Slavery Act 2015 and the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015	2017/18 Statement and Action Plan to be shared with the campus trades unions and Bangor Students' Union by 30th October, 2017	Head of Compliance	Yes
Ensure Internal Audit and Risk Assurance functions aware of the due diligence processes	Possible internal audit in future	2017/18 Statement and Action Plan to be shared with Head of Risk Assurance by 30th October, 2017	Head of Compliance	Yes
Review and update relevant policies and procedures to include	Ensure that all relevant policies include	31st January, 2017	Head of Compliance and working group	Yes

reference to the Modern Slavery Act	information on, and signposting for the Act	(in readiness for Compliance Task Group)		
Implementation of the Code of Practice on Ethical Employment in Supply Chains and its commitments	Consider Code of Practice and Annexes Carry out self-assessment against the Code of Practice commitments.	31st January 2018	Director of Procurement and working group	Yes. A self-assessment of Bangor University's current position against the requirements of the Code's commitments has been undertaken and a proposed set of actions identified.

Modern Slavery Act Action Plan 2018/19

Action	**Background / Notes**	**Deadline**	**Lead Officer**	**Completed Yes / No**
Update tender documentation to include appropriate clauses relating to the Ethical Employment in Supply Chains	Adopt new terms and conditions issued by the Higher Education Procurement Academy which include Modern Slavery clauses and implement appropriate clauses and tender questions as	31 July 2019	Deputy Director (Procurement & Payments)	

	recommended by Welsh Government.			